

Adroddiad Arolygu Ysbyty (Dirybudd)

Gwasanaethau Mamolaeth Glangwili,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Dyddiad yr arolygiad: 28 - 30 Tachwedd 2022

Dyddiad cyhoeddi: 2 Mawrth 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80535-540-3

© Hawlfraint y Goron 2023

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	8
	• Ansawdd Profiad y Claf	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	18
4.	Y camau nesaf	22
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	23
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	24
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	25

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd yn Uned Famolaeth Ysbyty Glangwili, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda gyda'r nos ar 28 Tachwedd, ac ar y diwrnodau canlynol, sef 29 a 30 Tachwedd 2022.

Adolygwyd y wardiau ysbyty canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Y ward gynenedigol (cyn esgor) a'r ward ôl-enedigol (ar ôl esgor)
- Uned a arweinir gan fydwragedd â thair ystafell eni a dau bwll geni
- Ward esgor (yn ystod y cyfnod esgor) â phedair ystafell esgor ac un pwll geni
- Ardal asesu brysbennu.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC, tri adolygydd cymheiriaid clinigol (un obsetregydd ymgynghorol a dwy fydwraig) ac un adolygydd profiad y claf. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom dîm o staff ymroddedig a oedd yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion. Gwelsom y staff yn rhyngweithio â'r cleifion yn barchus drwy gydol yr arolygiad. Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn cael gofal da yn yr ysbyty.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylid adolygu'r arwyddion yn yr ysbyty er mwyn sicrhau ei bod yn hawdd i gleifion ddod o hyd i bob un o'r wardiau mamolaeth
- Dylid adolygu hysbysfyrddau dynodedig er mwyn darparu digon o wybodaeth hybu iechyd a chynnwys gwasanaethau cyfeirio i ofalwyr ifanc
- Rhoddir meddyginiaethau lleddfu poen mewn modd amserol ar y ward ôl-enedigol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion mewn ffordd barchus
- Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn hapus ac yn cael gofal da
- Roedd trefniadau da ar waith i roi cymorth profedigaeth i gleifion a'u teuluoedd.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd prosesau ac archwiliadau sefydledig ar waith i reoli risgiau, iechyd a diogelwch a rheoli heintiau. Roedd hyn yn galluogi'r staff i barhau i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Cadarnhaodd y cofnodion cleifion a welsom fod gwaith cynllunio gofal dyddiol yn hybu diogelwch y cleifion. Gwelsom fod prosesau cadarn ar waith ar gyfer rheoli digwyddiadau clinigol, gan sicrhau bod gwybodaeth a'r gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu ar draws y gwasanaeth.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau y caiff oergelloedd meddyginiaeth eu cloi
- Rheoli gwybodaeth gyfrinachol am gleifion a'i chadw'n ddiogel

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd gwelliannau wedi'u gwneud mewn perthynas â mesurau diogelwch i sicrhau bod babanod yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn yn llawn
- Gwaith gwella ansawdd a threfniadau cydweithio â byrddau iechyd lleol i wella arferion.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd newidiadau sylweddol wedi cael eu gwneud ers arolygiad diwethaf AGIC yn 2019. Gwelsom dîm o staff ymrwymedig a oedd yn darparu gofal da i'r cleifion yn yr ysbyty. Roedd y tîm o uwch-reolwyr a rheolwyr canol yn dangos arweinyddiaeth ymroddedig, brwdfrydig, cefnogol a gweladwy.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol
- Adolygu'r rotas staffio er mwyn sicrhau bod niferoedd digonol o staff.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y staff yn cael eu hannog a'u cefnogi i gymryd rhan mewn prosiectau gwella ansawdd er mwyn gwella ansawdd y gofal a ddarperir, a chefnogi eu datblygiad parhaus
- Diwylliant cadarnhaol o ran rhoi gwybod am ddiwyddiadau a dysgu ohonynt
- Roedd y tîm arwain yn weladwy, yn gefnogol ac yn ymgysylltu'n dda â'r tîm o staff

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddefnyddio holiaduron papur ac ar-lein i gasglu barn ac adborth gan gleifion a gofawyr. Cwblhawyd cyfanswm o 16 o holiaduron. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Roedd staff yr uned esgor yn wych, a gwnaethant roi tawelwch meddwl i mi a fy mhartner yn ystod y cyfnod anodd/heriol hwn. Diolch arbennig i'r bydwagedd; maen nhw'n gaffaeliad i'r ysbyty hwn.”

Cadw'n iach

Diogelu a Gwella Iechyd

Gwelsom fod swm da o wybodaeth hybu iechyd yn cael ei harddangos mewn perthynas â bwydo ar y fron, cyngor ar gyswllt croen â chroen, iechyd meddwl ôl-enedigol, a chyngor cyffredinol ar gadw'n iach cyn, yn ystod ac ar ôl beichiogrwydd. Roedd amrywiaeth dda o wybodaeth ddwyieithog hefyd, ond roedd y wybodaeth hybu iechyd mewn nifer o leoliadau gwahanol. Hefyd, nid oedd unrhyw wasanaethau cyfeirio i ofalwyr ifanc. Gall y bwrdd iechyd gael budd o osod bwrdd hybu iechyd dynodedig.

Roedd yr ysbyty yn barth dim smygu dynodedig, ac roedd y gwaharddiad hwn yn cynnwys e-sigaréts/anwedd. Gwelsom wybodaeth briodol yn annog pobl i roi'r gorau i smygu ym mhob rhan o'r uned.

Roedd posterï hylendid dwylo a chanllawiau ar olchi dwylo wedi'u harddangos yn nhoiledau'r cleifion ac uwchben y sincipiau.

Gofal ag urddas

Gofal ag urddas

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom lawer o enghreifftiau o'r staff yn ymddwyn yn dosturiol, yn garedig ac yn gyfeillgar tuag at y cleifion a'u teuluoedd. Gwelsom y staff yn trin y cleifion â pharch, cwrteisi a moesgarwch bob amser. Roedd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd ein holiaduron yn gadarnhaol iawn am eu profiad o gael gofal.

Roedd cyfleusterau en-suite ym mhob un o'r ystafelloedd geni ac yn rhai o'r ystafelloedd ôl-enedigol, a oedd yn helpu i hybu cysur ac urddas y cleifion yn ystod eu cyfnod yn yr ysbyty. Lle nad oedd cyfleusterau en-suite ar gael, roedd toiledau a rennir ar gael gerllaw.

Roedd ystafell bwydo breifat i famau newydd ar y ward ôl-enedigol, a oedd yn rhoi cyfle i'r cleifion gael amser personol preifat.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiaduron eu bod wedi gweld yr un fydwraig yn yr uned eni ag a welsant yn ystod eu hapwyntiadau cynenedigol. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion wrthym hefyd eu bod rhwng 6 a 12 wythnos yn feichiog pan gawsant eu hapwyntiad cyntaf. Soniodd y cleifion mewn ffordd gadarnhaol am y dewisiadau a roddwyd iddynt o ran ble i eni eu babi, ac roedd y rhan fwyaf yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod hyn wedi digwydd.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi cael hyfforddiant ar brofedigaeth ac y byddent yn teimlo'n hyderus yn defnyddio'r polisïau cywir i'w galluogi i roi gofal priodol i unrhyw rieni sydd wedi cael profedigaeth yn ddiweddar.

Roedd ystafell brofedigaeth benodedig yn yr uned ac roedd tîm o fydwragedd profedigaeth yn gweithio ar draws y bwrdd iechyd i gynnig cymorth a chynghor. Roedd yr ysbyty yn gwneud yn siŵr y byddai'r un fydwraig yn gweld teuluoedd a oedd wedi cael profedigaeth yn rheolaidd. Roedd grŵp cyfathrebu da wedi'i sefydlu gan y staff hefyd, a oedd yn eu galluogi i gael gwybod yn rheolaidd am unrhyw gymorth parhaus yr oedd ei angen ar gyfer teuluoedd a oedd wedi cael profedigaeth. Roedd y tîm profedigaeth hefyd yn datblygu 'Clinig Enfys' penodol i fenywod a oedd wedi colli babi yn ystod beichiogrwydd.

Roedd yr ysbyty hefyd yn darparu gwasanaeth caplaniaeth ac roedd eglwys aml-ffydd yn yr ysbyty at ddefnydd cleifion a'u teuluoedd. Dywedodd y staff wrthym am drefniadau i alluogi cleifion o wahanol ffydd i ddefnyddio'r ystafelloedd gweddi er mwyn diwallu eu hanghenion ysbrydol.

Cyfathrebu'n effeithiol

Ar y cyfan, roedd yn ymddangos bod y cleifion yn teimlo'n gadarnhaol am y rhyngweithio rhyngddyn nhw a'r staff yn ystod eu cyfnod yn yr uned. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod wedi teimlo'n hyderus yn gofyn am help neu gyngor pan oedd ei angen arnynt. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion hefyd fod y staff bydwreigiaeth a'r staff meddygol wedi gwrandao arnynt yn ystod eu harhosiad. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion wrthym fod y staff bob amser wedi siarad â nhw am eu dewisiadau geni.

Gwelsom fod y staff yn ceisio cynnal preifatrwydd y cleifion ym mhob rhan o'r uned wrth rannu gwybodaeth.

Gwelsom fod staff yr uned yn cyfarfod ddwywaith y dydd, ar adegau newid shift. Yn ystod y cyfarfodydd trosglwyddo y cawsom gyfle i fod yn rhan ohonynt, gwelsom gyfathrebu effeithiol wrth drafod anghenion a chynlluniau'r cleifion, gyda'r nod o ddarparu parhad gofal. Roedd y cyfarfodydd hyn wedi'u strwythuro'n dda ac yn seiliedig ar dystiolaeth, a oedd yn arfer da ym marn y tîm arolygu.

Siaradodd y staff yn gadarnhaol am dudalen Facebook Baby Talk y bwrdd iechyd, a gafodd ei chreu i alluogi mamau newydd i gyfathrebu, rhannu profiadau a rhoi adborth. Dywedodd y staff y gwnaethom gyfweld â nhw wrthym fod yr adborth a geir drwy'r dudalen Facebook yn fuddiol ac yn bwysig iawn iddynt.

Gwybodaeth i gleifion

Er bod yr arwyddion i'r uned a arweinir gan fydwragedd yn glir, gwelsom nad oedd cyfarwyddiadau i'r wardiau mamolaeth eraill wedi'u harddangos yn glir o amgylch yr ysbyty. Gallai hyn ei gwneud hi'n anodd i bobl ddod o hyd i'r lle priodol i gael gofal. Roedd nifer o welliannau amgylcheddol yn cael eu gwneud i'r wardiau ar adeg yr arolygiad. Dywedwyd wrthym y byddai arwyddion newydd yn cael eu gosod, er mwyn ei gwneud yn haws i ymwelwyr ganfod eu ffordd o amgylch yr uned famolaeth.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r gwasanaethau cyfieithu sydd ar gael yn y bwrdd iechyd a sut y gallent gael gafael arnynt. Roedd y bydwagedd a oedd yn siarad Cymraeg yn gwisgo laniard neu logo siaradwr Cymraeg ar eu gwisg i ddangos hyn. Roedd y staff hefyd yn ymwybodol o'r llinell iaith.

Roedd gan bob ward Fwrdd Ciplwg ar Statws Cleifion, a oedd yn cael ei ddefnyddio'n ddyddiol gan dimau amlddisgyblaethol. Roedd y byrddau hyn yn nodi materion o ran diogelwch cleifion a gofynion neu gynlluniau gofal dyddiol yn glir, yn ogystal â'r cymorth unigol yr oedd ei angen a'r trefniadau ar gyfer rhyddhau cleifion.

Gofal amserol

Mynediad Amserol

Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn barod iawn eu cymwynas ac y byddent yn diwallu eu hanghenion mewn modd amserol. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn gwneud eu gorau i sicrhau bod holl anghenion y cleifion yn cael eu diwallu ac roedd cofnodion y cleifion yn dangos bod hyn yn digwydd.

Gwnaethom edrych ar gofnodion y cleifion yn ogystal â siarad â'r cleifion. Drwy hyn, gwnaethom gadarnhau fod pob ward yn sicrhau bod anghenion personol y cleifion, a'u hanghenion o ran maeth a chysur, yn cael eu gwirio'n rheolaidd.

Gwelsom fod adnodd sgrinio sepsis yn y sampl o gofnodion gofal cleifion a welsom, a oedd yn helpu i nodi cleifion a allai fynd yn sâl neu ddatblygu sepsis. Gwelsom fod y camau y mae angen eu cymryd ar gyfer claf â sepsis wedi'u harddangos yn yr ystafelloedd trin. Gwelsom hefyd fod y bydwagedd a'r meddygon yn adnabod arwyddion a symptomau sepsis yn gyflym ac yn gweithredu'n unol â'r canllawiau cenedlaethol.

Nododd rhai o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw ar y ward ôl-enedigol nad oeddent bob amser yn cael meddyginiaeth lleddfu poen mewn modd amserol pan oedd ei hangen arnynt, neu nad oeddent yn cael esboniad pam na allent gael meddyginiaeth lleddfu poen. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cleifion yn cael meddyginiaeth lleddfu poen mewn modd effeithlon, diogel ac amserol.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Roedd y cyfleusterau'n hygyrch i bawb ym mhob rhan o'r uned. Gwelsom dystiolaeth yn nodiadau'r cleifion o asesiadau parhaus o anghenion, ynghyd ag atgyfeiriadau at ymarferwyr arbenigol a grwpiau cymorth fel y bo'n briodol. Roedd cynlluniau geni unigol wedi'u dogfennu ac yn cynnwys dymuniadau ac anghenion penodol y claf.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion a gwelsom dystiolaeth fod credoau personol a dewisiadau crefyddol y cleifion yn cael eu cofnodi yn ystod apwyntiadau cynenedigol.

Hawliau pobl

Gwelsom y gallai partneriaid geni fod yn rhan o'r gofal yn unol â dymuniadau a dewisiadau'r cleifion. Roedd y cofnodion a welsom yn cadarnhau bod hyn yn digwydd.

Darparodd y staff enghreifftiau hefyd lle roedd addasiadau rhesymol ar waith, neu'n cael eu gwneud, fel bod pawb, gan gynnwys unigolion â nodweddion gwarchoddedig, yn gallu defnyddio'r gwasanaeth. Dywedwyd wrthym y defnyddir aelod o'r staff sy'n defnyddio iaith arwyddion i gyfathrebu â chleifion sydd â nam ar eu clyw. Gwelsom nad oedd unrhyw ddolenni clywed ar gael a byddem yn argymhell y dylai fod dolenni cymhorthion clyw ar gael i'r cleifion pe bai eu hangen.

Mae'r uned famolaeth hefyd wrthi'n defnyddio'r ymchwil ddiweddar gan Goleg Brenhinol y Bydwagedd ar y defnydd o iaith briodol mewn lleoliadau mamolaeth. Mae'r prosiect yn cynnwys rhoi ymchwil Coleg Brenhinol y Bydwagedd ar waith. Mae'r staff mamolaeth wrthi'n adolygu pob dull cyfathrebu er mwyn sicrhau bod y

staff yn defnyddio termau priodol a pherthnasol, ac y caiff yr iaith a ddefnyddir ei hadlewyrchu yn y ddogfennaeth a gwblheir gan y staff.

Gwrando a dysgu o adborth

Roedd gwybodaeth am y weithdrefn y dylai cleifion ei dilyn pe bai ganddynt bryderon neu gwynion am eu gofal i'w gweld ar wefan y bwrdd iechyd. Dywedodd y tîm uwch-reolwyr wrthym fod staff yr uned yn gwybod sut i ddelio â chwynion. Cadarnhawyd hyn gan y staff y gwnaethom siarad â nhw, a ddywedodd wrthym fod manylion y Cyngor Iechyd Cymuned yn cael eu rhoi i gleifion ynghyd â chanllawiau Gweithio i Wella.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cyfathrebu'n barhaus â chleifion yn ystod unrhyw ymchwiliad i gŵyn, a bod teuluoedd yn cael y cyfle i gyfarfod ag uwch-aelodau o'r staff i drafod pryderon.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gofyn am adborth gan y cleifion yn rheolaidd drwy gardiau adborth, holiaduron a negeseuon testun. Mae'r tîm uwch-reolwyr yn gweithredu ar y canlyniadau ac yn eu rhannu â'r staff yn ystod cyfarfodydd gwersi a ddysgwyd ac arfarniadau.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Gofal Diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd prosesau sefydledig ar waith i reoli ac adolygu risgiau a chynnal iechyd a diogelwch yn yr ysbyty. Roedd hyn yn helpu'r staff i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Ymddengys bod yr uned yn lân, wedi'i goleuo'n briodol ac wedi'i hawyru'n dda. Gwelsom fod y rhan fwyaf o'r ardaloedd yn daclus ac yn drefnus. Roedd rhai newidiadau amgylcheddol parhaus wrthi'n cael eu gwneud yn ystod yr arolygiad hefyd, ac roedd newidiadau amgylcheddol amlwg wedi'u gwneud ers arolygiad diwethaf AGIC, a oedd wedi helpu i wella profiad y claf. Gwelsom fod yr uned a arweinir gan fydwragedd a'r ward esgor a oedd wedi cael ei hadnewyddu'n ddiweddar yn ddymunol, yn groesawgar ac yn gartrefol.

Gwnaethom ystyried amgylchedd yr uned a gwelsom fod mesurau diogelwch digonol ar waith i sicrhau bod babanod yn ddiogel yn yr uned. Roedd mynediad i bob ardal wedi'i gyfyngu gan ddrysau wedi'u cloi, na ellid eu hagog heb bws staff neu heb i aelod o'r staff gymeradwyo mynediad.

Roedd tystiolaeth bod ymarfer herwgydio babanod wedi cael ei gynnal ym mis Gorffennaf 2022. Roedd tystiolaeth hefyd fod y staff wedi cael eu canmol yn dilyn yr ymarfer herwgydio.

Roedd clychau galw yn ystafell pob claf i'w defnyddio mewn argyfwng. Gallai'r staff ddisgrifio'r weithdrefn ar gyfer gwagio'r pwll a'r cyfarpar i'w ddefnyddio. Dywedwyd wrthym y caiff hyfforddiant ar reoli sefyllfa lle bydd mam yn llewygu yn y pwll ei ddarparu fel rhan o ddiwrnod astudio PROMPT.

Bydd yr obstetregwyr ymgynghorol ar alwad naill ai'n aros ar y safle neu'n gallu teithio i'r uned yn brydlon ac mewn modd amserol.

Atal briwiau pwyso a niwed i feinweoedd

Wrth edrych ar gofnodion cleifion, gwelsom fod rhestrau gwirio priodol wedi'u cwblhau, ac y byddai unrhyw risgiau parhaus yn cael eu monitro. Dywedodd y staff wrthym hefyd fod clustogau a matresi arbennig ar gael i'r cleifion pan fo angen.

Atal cwympiadau

Roedd asesiadau risg ar waith ar gyfer cleifion yn yr uned yn ogystal â'r rheini sy'n defnyddio'r pyllau geni. Dywedwyd wrthym y byddai unrhyw achosion o glaf yn cwmpo yn cael eu cofnodi drwy system cofnodi digwyddiadau electronig y bwrdd

iechyd. Eglurodd y staff y byddai'r system cofnodi digwyddiadau yn cael ei dilyn er mwyn sicrhau bod unrhyw wersi'n cael eu dysgu a bod camau priodol yn cael eu cymryd yn eu cylch.

Atal a rheoli heintiau

Gwelsom fod ardaloedd clinigol yr uned yn lân ac yn daclus, a bod cyfarpar diogelu personol ar gael ym mhob ardal ac yn cael ei ddefnyddio gan bob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol. Dywedodd y cleifion a gwblhaodd holiadur a'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn credu bod yr uned yn drefnus, yn lân ac yn daclus.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod pob aelod o'r staff yn cydymffurfio â'r safonau o ran bod yn Noeth o dan y Penelin a gwelsom fod technegau hylendid dwylo da ar waith. Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael, ynghyd â phosteri a oedd yn dangos y gweithdrefnau golchi dwylo cywir i'w dilyn er mwyn i'r staff allu edrych arnynt i'w hatgoffa. Roedd hylif diheintio dwylo ar gael ym mhob rhan o'r uned.

Gwelsom ganlyniadau archwiliad rheoli heintiau a gynhaliwyd yn ddiweddar gan y bwrdd iechyd. Dangosodd yr archwiliad hwn gydymffurfiaeth uchel â gweithdrefnau rheoli heintiau, a dangosodd yr archwiliad hylendid dwylo a gynhaliwyd ym mis Hydref gydymffurfiaeth o 100% ym mhob ardal.

Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod y bwrdd iechyd wedi diweddarau'r polisiâu a'r gweithdrefnau perthnasol er mwyn bodloni gofynion ychwanegol pandemig COVID-19. Mae hylif diheintio dwylo a masgiau wyneb ar gael, ac mae'r staff ac ymwelwyr yn gwisgo masgiau ym mhob rhan o'r ysbyty.

Dywedodd y staff wrthym fod cyfarpar diogelu personol a chyfarpar glanhau priodol ar gael iddynt. Mae trefniadau ar gyfer cyfathrebu'n rheolaidd drwy gyfarfodydd a negeseuon e-bost yn sicrhau bod pawb yn cael y cyngor a'r canllawiau diweddaraf mewn perthynas â COVID-19.

Maeth a hydradu

Roedd cyfleusterau ar gael i staff y wardiau wneud bwyd a diodydd i gleifion y tu allan i oriau craidd, yn ogystal â gwasanaeth troli ar gyfer prydau bwyd lle y gallai cleifion mewnl archebu bwyd ymlaen llaw.

Gwelsom gleifion yn cael cynnig diodydd poeth ac oer a bod jygiau o ddŵr ar gael o fewn cyrraedd hawdd iddynt.

Dywedwyd wrthym y byddai'r staff yn sicrhau y byddai bwyd priodol ar gael i unrhyw glaf â gofynion deietegol penodol yn ystod ei arhosiad.

Roedd gofynion maeth a hylif y cleifion wedi'u dogfennu'n dda yn y cofnodion gofal cleifion a welsom.

Rheoli meddyginiaethau

Ar noson gyntaf yr arolygiad, gwelsom fod y cypyrddau a'r oergelloedd meddyginiaethau wedi'u gadael heb eu cloi yn yr Uned a Arweinir gan Fydwagedd. Codwyd hyn gyda'r staff, a unionodd y sefyllfa yn syth, a chafodd yr holl ddrysau eu cau a'r cypyrddau a'r oergelloedd eu cloi.

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer storio a rhoi cyffuriau a reolir yn ddiogel. Gwelsom dystiolaeth fod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal o dymheredd yr oergell meddyginiaethau er mwyn gwneud yn siŵr bod meddyginiaethau yn cael eu storio ar y tymheredd a argymhellwyd gan y gwneuthurwr.

Drwy drafod â'r staff ac edrych ar sampl o gofnodion cleifion, gwnaethom nodi hefyd fod meddyginiaeth yn cael ei rhagnodi a'i rhoi yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd yn ystod y cyfnod esgor.

Gwnaethom edrych ar gofnodion 11 o'r cleifion a gwelsom eu bod wedi'u cwblhau'n briodol.

Mae cymorth fferyllol ar gael i'r uned ac mae system gyfrifiadurol y tu allan i oriau yn galluogi'r staff i gadarnhau cyflenwadau cyffuriau ar draws yr ysbyty er mwyn sicrhau nad oes unrhyw oedi cyn rhoi meddyginiaeth i gleifion. Roedd cyflenwad o feddyginiaeth y gellid ei defnyddio gartref hefyd, er mwyn hwyluso'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty mewn modd amserol.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg

Roedd polisiâu a gweithdrefnau ar waith yn y bwrdd iechyd i hyrwyddo a diogelu lles plant ac oedolion a all fod yn wynebu risg. Roedd hyfforddiant diogelu yn orfodol, a chadarnhaodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi cael hyfforddiant yn ystod y 12 mis diwethaf.

Roedd bydwaig ddiogelu arweiniol wedi'i phenodi ar gyfer y bwrdd iechyd, a oedd yn darparu cymorth a hyfforddiant i'r staff. Mae pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant diogelu sy'n cynnwys arweiniad ynghylch anffurfio organau cenedlu menywod, cam-drin domestig, camfanteisio rhywiol a chleisiau ar fabanod, yn ogystal â'r gweithdrefnau i'w dilyn os bydd pryder diogelu.

Roedd sesiynau goruchwyllo diogelu ffurfiol, a gyflwynwyd yn ddiweddar, yn annog y staff i drafod materion mewn sesiynau goruchwyllo grŵp. Mae'n orfodol i'r staff fynychu dwy sesiwn bob blwyddyn. Dangosodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wybodaeth a dealltwriaeth dda ynghylch protocolau diogelu.

Roedd gweithdrefnau priodol ar waith i hysbysu'r staff am bryderon diogelu mewn perthynas â chleifion a dderbyniwyd i'r uned. Roedd hyn yn sicrhau bod y gofal a'r driniaeth a oedd yn cael eu rhoi yn briodol. Roedd pob un o'r staff y gwnaethom

siarad â nhw yn ymwybodol o'r gweithdrefnau a'r prosesau i'w dilyn pe bai ganddynt bryderon diogelu mewn perthynas â chleifion.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Yn gyffredinol, dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod cyfarpar meddygol priodol ar gael iddynt i ddarparu gofal i'r cleifion.

Cadarnhaodd y ddogfennaeth a welsom fod gwiriadau rheolaidd ar gyfarpar yn sicrhau ei fod yn addas i'w ddefnyddio.

Gwelsom fod y troli brys, i'w ddefnyddio mewn argyfwng yn ymwneud â chlaf, yn drefnus ac yn cynnwys yr holl gyfarpar priodol, gan gynnwys diffibriliwr. Gwelsom fod gwiriadau cynnal a chadw yn cael eu cynnal ar y cyfarpar hwn. Roedd y cyffuriau brys hefyd yn cael eu storio ar y troli dadebru brys.

Gwelwyd cyfarpar gwagio mewn argyfwng yn ystafelloedd y pyllau geni, y gellid ei ddefnyddio pe bai cymhlethdodau yn codi yn ystod genedigaeth ddŵr. Rhoddwyd sicrwydd i ni hefyd fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant priodol ar sut i'w ddefnyddio mewn argyfwng.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Dywedodd y staff wrthym fod y cleifion yn gyfforddus ac yn cael gofal da, a chadarnhawyd hyn gan y cleifion y gwnaethom siarad â nhw. Roedd dulliau asesu a lleddfu poen ar gael i'r cleifion yn ystod y cyfnod esgor.

Gwelsom y staff yn blaenoriaethu angen clinigol a gofal cleifion yn effeithiol yn yr uned, ac yn y cofnodion cleifion a welsom, roedd yn amlwg bod y broses o flaenoriaethu angen clinigol yn bwysig wrth gynllunio gofal.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Roedd yn galonogol gweld nifer y prosiectau ymchwil a'r gwelliannau ansawdd sydd ar waith yn y bwrdd iechyd ar hyn o bryd. Gwelsom nifer o enghreifftiau o gydweithio â byrddau iechyd lleol eraill fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar brosiectau gwella fel dysgu o ddigwyddiadau, a phrosiectau mewn prifysgolion gyda bydwagedd dan hyfforddiant. Roedd tîm y goruchwylydd clinigol hefyd yn arwain gwaith i ddatblygu siart cydbwysedd hylif newydd, a fyddai'n cael ei chyflwyno i fyrddau iechyd eraill.

Roedd y Pennaeth Bydwreigiaeth wedi cyflwyno blog chwarterol, a oedd yn cynnwys diolchiadau i'r staff a'r newyddion diweddaraf. At hynny, roedd y bwletin CTG

chwarterol hefyd yn cynnwys gwersi a ddysgwyd, pynciau llosg, a diweddariadau i'r staff. Roedd y ddau fwletin yn enghreifftiau o arfer da ac yn dangos y gwahanol ffyrdd y mae'r uwch-reolwyr yn ymgysylltu â'r staff.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Ystyriodd y tîm arolygu y trefniadau ar gyfer cynnal cyfrinachedd cleifion a chydymffurfio â gofynion Llywodraethu Gwybodaeth a Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018 yn yr uned.

Ar noson gyntaf yr arolygiad, gwelsom nad oedd y cypyrddau a oedd yn cynnwys cofnodion y cleifion wedi'u cloi a bod y drysau ar agor. Gwnaethom godi hyn gyda'r uwch-reolwyr a chafodd drysau'r cypyrddau eu cadw dan glo am weddill yr arolygiad. At hynny, gwelsom gofrestr genedigaethau a oedd yn cynnwys gwybodaeth am gleifion ar ddesg yn yr Uned a Arweinir gan Fydwragedd. Nid oedd yr uned yn cael ei defnyddio ar y pryd, ond mae'n bwysig gwneud yn siŵr bod gwybodaeth sy'n cynnwys manylion adnabod am gleifion yn cael ei chadw'n ddiogel.

Dywedwyd wrthym fod gan bob aelod o'r staff ei fanylion mewngofnodi i gyfrifiadur ei hun er mwyn helpu i gynnal prosesau llywodraethu gwybodaeth.

Cadw cofnodion

Ar y cyfan, gwelsom fod y trefniadau ar gyfer cadw cofnodion o safon dderbyniol, a bod cynlluniau gofal yn cael eu dogfennu'n dda rhwng timau amlddisgyblaethol. Gwelsom siartiau arsylwi, llwybrau gofal a bwndeli gofal priodol yn cael eu defnyddio.

Roedd dogfennau fel asesiadau risg cynenedigol, MEWS a NEWS yn cael eu cwblhau'n gyson, ac roedd asesiadau manwl yn y cofnodion a welsom. Fodd bynnag, gwelsom rai anghysondebau yng nghofnodion rhai o'r cleifion lle roedd rhai o'r llofnodion meddygol yn anodd eu darllen ac nad oedd rhifau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth na'r Cyngor Meddygol Cyffredinol wedi'u nodi.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan Staff

Gwnaethom wahodd y staff i gwblhau holiaduron AGIC ar ôl yr arolygiad er mwyn cael gwybod eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn yr ysbyty. Cafwyd cyfanswm o 27 o ymatebion gan staff.

Roedd ymatebion y staff yn gadarnhaol, gyda 25 o'r 27 o aelodau o staff yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth y maent yn eu rhoi i'r cleifion; pob un o'r 27 yn cytuno y byddent yn fodlon ar safon y gofal a ddarparwyd gan yr ysbyty ar eu cyfer nhw eu hunain neu eu ffrindiau a'u teulu, a'r rhan fwyaf ohonynt, sef 26 o'r 27 yn argymhell eu sefydliad fel man gwaith.

Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd

Gwelsom fod gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud ers ein harolygiad diwethaf yn 2019. Roedd systemau a phrosesau penodol iawn ar waith i sicrhau bod yr ysbyty yn canolbwyntio ar wella ei wasanaethau'n barhaus. Roedd hyn yn cael ei gyflawni drwy raglen dreigl o archwiliadau a'i strwythur llywodraethu sefydledig, a oedd yn galluogi aelodau allweddol/enwebedig o'r staff i gyfarfod yn rheolaidd i drafod canlyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â darparu gofal cleifion.

Mae angen i welliannau parhaus ganolbwyntio ar gydymffurfiaeth staff â phrosesau'r ystafell glinigol, fel sicrhau y caiff yr oergelloedd meddyginiaethau eu cloi'n gyson pan na fyddant yn cael eu defnyddio ac y caiff y cypyrddau sy'n cynnwys cofnodion cleifion eu cloi bob amser.

Yn ystod yr arolygiad, rhoddodd yr Uwch-dîm Arwain sicrwydd i ni fod archwiliadau mewnol wedi'u cynnal a darparodd dystiolaeth o amrywiaeth o archwiliadau a gynhaliwyd a gwelliannau a wnaed i'r tîm. Darparwyd y dogfennau hyn yn brydlon i'r tîm, gan ddangos bod y systemau a'r strwythurau cywir ar waith.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn cynnal nifer o gyfarfodydd rheolaidd i wella gwasanaethau a chryfhau trefniadau llywodraethu. Roedd y cyfarfodydd hynny'n cynnwys grŵp ansawdd a diogelwch mamolaeth, cyfarfod bwrdd gwella gofal mamolaeth a gofal newyddenedigol, grŵp ansawdd a diogelwch mamolaeth misol, cyfarfod adolygu archwiliadau misol a chyfarfodydd aml-ddisgyblaethol wythnosol. Ystyriwyd bod hyfforddiant myfyrio a sesiynau cinio a dysgu CTG yn enghreifftiau o arfer da, a bod y dull o gynnal yr hyfforddiant hwn yn gadarnhaol, yn gynhwysol ac yn annog trafodaethau a dadleuon agored ymhlith y staff a'r tîm aml-ddisgyblaethol ehangach.

Roedd y Pennaeth Bydwreigiaeth yn arwain mewn modd ymroddedig a brwdfrydig, wedi'i chefnogi gan dimau aml-ddisgyblaethol ymrwymedig. Roedd y tîm yn grŵp cydlynol o arweinwyr, ac yn ystod y cyfweiliadau a gynhaliwyd â nhw, gwelsom eu

bod yn gwerthfawrogi'r staff a lefel y gwasanaeth y maent yn ei ddarparu i'r cleifion. Siaradodd y staff yn gadarnhaol hefyd am y Pennaeth Bydwreigiaeth a'r newid cadarnhaol yr oedd wedi'i wneud i ddiwylliant yr uned, gan ei disgrifio fel unigolyn brwdfrydig, gweladwy a hawdd mynd ati.

Roedd y staff yn teimlo'n hyderus y gallant godi pryderon a gwnaethant gyfeirio at ddiwylliant cadarnhaol mewn perthynas â chofnodi ar Datix a dysgu o ddigwyddiadau. Dywedodd y staff fod y newid cadarnhaol hwn wedi deillio o'r ffaith bod rhai aelodau o'r staff wedi gadael a bod uwch-aelodau newydd o staff wedi cael eu penodi, ac roedd yr ystadegau a welsom yn ategu hyn, gyda chynnydd o 34% yn nifer y digwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt gan y staff. Ategwyd ein canfyddiadau gan sylwadau'r staff yn yr arolwg staff hefyd, a oedd yn cynnwys y canlynol:

“Mae'r broses risg wedi newid yn llwyr, ac rwy'n teimlo'n ddiogel ac yn hyderus wrth roi gwybod am bethau ac yn teimlo y bydd yr ymchwiliad yn un diogel a theg, gyda'r gwersi i'w dysgu sy'n deillio ohono yn berthnasol i bob un ohonom fel tîm.

Y Gweithlu

Dywedodd pob un o'r staff y gwnaethom siarad â nhw fod yr arweinyddiaeth a'r gefnogaeth, boed hynny ar lefel bersonol neu o safbwynt gwaith, yn ardderchog. Roedd pob un o'r uwch-reolwyr yn annog gwaith tîm cryf, a chafodd hyn ei gadarnhau gan y staff yn yr adborth cadarnhaol a roesant mewn cyfweiliadau wyneb i wyneb ac yn yr arolwg staff. Roedd y sylwadau cadarnhaol yn cynnwys y canlynol:

“O'r diwedd, mae Hywel Dda yn rhywle lle rwy'n mwynhau gweithio. Mae cyflwyno'r Pennaeth Bydwreigiaeth newydd wedi cael effaith enfawr ar lesiant y staff. Mae'r prosesau o ran risg a llywodraethu wedi newid er gwell - ac mae'r gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu bob wythnos.

Mae pawb yn cael eu gwahodd i bob cyfarfod er mwyn sicrhau tryloywder a bod yn agored.

Rwy'n teimlo'n ddiogel ac yn teimlo fy mod yn cael fy mharchu fel bydwraig”.

“Mae'r weithdrefn llywodraethu yn llawer gwell. Mae wedi datblygu o fod yn ddiwylliant o fwrw bai i ddiwylliant lle dysgir o ddigwyddiadau. Mae'r Pennaeth Bydwreigiaeth yn weladwy ac yn gefnogol”

Gwelsom fod y bydwagedd yn cael dogfennau portffolio hyfforddiant unigol a oedd yn dogfennu'r hyfforddiant gorfodol yr oedd yn ofynnol iddynt ei gwblhau, yn ogystal â gwybodaeth am y cyfleoedd dysgu ychwanegol a oedd ar gael iddynt. Roedd proses ar waith ar gyfer monitro presenoldeb y staff a'u cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol. Roedd y ffigurau hyfforddiant ar yr uned yn dda, gyda chyfradd cydymffurfiaeth o fwy na 80%, ond gellid gwneud gwelliannau pellach.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn cael arfarniadau rheolaidd a'u bod yn eu hystyried yn gyfarfodydd cadarnhaol i wella eu datblygiad proffesiynol parhaus, a chadarnhawyd hyn gan y data ar gydymffurfiaeth a welsom.

Dywedodd yr uwch-reolwyr wrthym fod y rotas bydwragedd yn cael eu rheoli'n dda yn yr uned. Pe bai unrhyw brinder staff, byddai'r uwch-reolwyr hefyd yn camu i'r adwy pe bai angen. Fodd bynnag, dywedodd rhai o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo y dylid cynyddu'r rotas staffio ar eu wardiau. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw, a'r rhai a gwblhaodd yr arolwg, nad oedd digon o staff ar gael ar yr uned yn rheolaidd. Roedd y sylwadau yn cynnwys:

"Mae hwn yn lle da i weithio ar y cyfan. Nid yw'r lefelau staffio yn ddigonol bob amser, sy'n gallu golygu ein bod yn colli egwylliau bwyd".

"Lefelau staffio mwy cyfartal. Ambell i ddiwrnod, bydd gennym ddigon o fydwagedd ond ar ddiwrnodau eraill, bydd prinder mawr (3-4 bydwraig yn brin), sy'n gwneud y shifft yn llawer mwy anodd, gydag egwylliau'n cael eu colli a'r staff yn teimlo dan straen ac yn gorfod gofalu am un fenyw ar ôl y llall heb seibiant. Rydym yn cefnogi ein gilydd ond mae'n flinderus iawn pan fydd hyn yn digwydd".

O ystyried y pryderon a godwyd gan rai o'r staff ynglŷn â lefelau staffio a phwysau gwaith o ganlyniad i aciwtedd cleifion, rydym yn argymhell y dylai'r uwch-reolwyr adolygu'r rotas staffio. Bydd hyn yn sicrhau bod y lefelau staffio yn briodol i ddarparu gofal diogel ac amserol.

Mynegodd rhai o'r staff y gwnaethom siarad â nhw bryderon ynglŷn â'r anghysondeb o ran ymatebolrwydd meddygon ymgynghorol i argyfwng pan fydd bydwragedd a meddygon iau yn galw amdanynt. Codwyd hyn hefyd yn yr arolwg staff a chafwyd sylwadau am amharodrwydd obstetregwyr ymgynghorol i ddod i'r ward esgor gyda'r nos, a'u bod yn gwneud i'r staff deimlo fel pe baent yn tarfu arnynt pan fyddant yn cysylltu â nhw gartref. Awgrymodd rhai sylwadau hefyd nad yw'r meddygon ymgynghorol bob amser yn mynychu cyfarfodydd trosglwyddo gyda'r nos. Gwnaethom godi hyn gydag un o'r uwch-reolwyr yn ystod yr arolygiad, a chadarnhawyd bod cyfraddau galw ac ymateb meddygon ymgynghorol wrthi'n cael eu harchwilio.

At hynny, ar noson gyntaf yr arolygiad, roedd rhai o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ansicr pwy oedd y meddyg ymgynghorol ar alwad ar gyfer y noson honno. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y rota meddygon ymgynghorol ar alwad ar gael ac yn cael ei harddangos i bob aelod o'r staff allu ei gweld.

Yn ystod y cyfweiliadau â'r staff, cafwyd ymateb cymysg wrth sôn am lefel y cymorth a roddir i'r meddygon iau a haen ganol, gyda rhai yn siarad yn gadarnhaol am y cymorth a'r arweiniad y maent yn eu cael gan y staff ac eraill yn dweud nad ydynt yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, ac nad oedd fawr ddim cyfleoedd ar gyfer datblygu a mentora. Ategwyd hyn gan sylwadau yn yr arolwg staff, lle awgrymwyd yn aml nad yw'r meddygon iau, mewn rhai amgylchiadau, yn cael eu cefnogi o ran eu hyfforddiant a'u dysgu, na'u dyheadau o ran gyrfa. Nodwyd

cydymffurfiaeth isel â hyfforddiant gorfodol ymhlith y staff meddygol, gydag ychydig yn fwy na 50% o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn.

Rhaid i'r bwrdd iechyd fyfyrion ar yr adborth uchod a sicrhau bod pob aelod o'r staff meddygol yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi'n ddigonol ac yn cael cyfleoedd i ddatblygu yn ei rôl. Rhaid i'r bwrdd iechyd hefyd sicrhau gwelliant o ran cwblhau hyfforddiant gorfodol.

Er nad oedd yn un o ganfyddiadau'r arolygiad, nododd yr arolwg staff y gellid gwella'r cydberthnasau rhwng staff yr ysbyty a'r staff cymunedol. Nododd y staff a gwblhaodd yr arolwg nad yw'r staff cymunedol yn aml yn cael eu cefnogi na'u cynorthwyo yn ystod cyfnodau prysur, a bod hyn yn gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu dibrisio ac nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi. Dylai'r bwrdd iechyd ystyried yr adborth hwn a nodi sut y gall feithrin cydberthnasau rhwng y staff cymunedol a staff yr ysbyty.

Dywedodd y staff wrthym fod cymorth lles yn yr uned yn dda iawn, ac roedd yn amlwg o'r cyfweiliadau â'r uwch-reolwyr a'r rheolwyr canol fod lles y staff yn cael blaenoriaeth uchel.

Roedd nifer o enghreifftiau o ymarferion datblygu tîm, yr oedd rhai ohonynt yn cynnwys aelodau o deuluoedd y staff, fel diwrnod chwaraeon tîm a oedd wedi'i gynllunio ar gyfer gwanwyn 2023. Ceir tîm rownderi gweithgar sy'n cynnwys staff o ddisgyblaethau eraill y tu allan i'r tîm mamolaeth.

Roedd yr Arweinydd Clinigol a'r Pennaeth Bydwreigiaeth yn mynychu'r wardiau ac yn cynnal sesiynau galw heibio rheolaidd er mwyn i'r staff drafod unrhyw anghenion lles neu gymorth y gallai fod ei angen arnynt. Roedd yn amlwg bod yr Arweinydd Clinigol a'r Pennaeth Bydwreigiaeth yn arwain mewn ffordd gefnogol iawn a'u bod yn hawdd mynd atynt, a chadarnhawyd hyn hefyd yn ystod y cyfweiliadau â'r staff.

Roedd yr Arweinydd Clinigol a'r Pennaeth Bydwreigiaeth yn rhannu swyddfa hefyd, ac roedd hyn yn eu galluogi i gydweithio a chyfathrebu'n rheolaidd er mwyn trafod a gwneud penderfyniadau mewn modd amserol, gan wella canlyniadau i'r staff a'r cleifion.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Roedd yr oergelloedd meddyginiaethau yn yr uned a arweinir gan fydwragedd wedi'u gadael heb eu cloi.	Roedd hyn yn peri risg y byddai unigolion heb awdurdod yn gallu cael gafael ar feddyginiaeth.	Gwnaethom godi hyn gyda'r Pennaeth Bydwreigiaeth.	Unionwyd hyn yn syth a chafodd pob oergell ei chloi.
Roedd cypyrddau a oedd yn cynnwys cofnodion cleifion wedi'u gadael heb eu cloi.	Roedd hyn yn peri risg y byddai unigolion heb awdurdod yn gallu cael gafael ar wybodaeth breifat am gleifion.	Gwnaethom godi hyn gyda'r Pennaeth Bydwreigiaeth.	Unionwyd hyn yn syth a chafodd pob cwpwrdd a oedd yn cynnwys cofnodion cleifion ei gloi.

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: **Uned Famolaeth Glangwili**

Dyddiad yr arolygiad: **28 - 30 Tachwedd 2022**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw welliannau yr oedd angen eu gwneud ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.				

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth:

Uned Famolaeth Glangwili

Dyddiad yr arolygiad: 28 - 30 Tachwedd 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylai'r bwrdd iechyd ystyried arddangos bwrdd hybu iechyd dynodedig, er mwyn sicrhau bod gwybodaeth berthnasol yn hygyrch.	1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd	Y Fydwraig Iechyd y Cyhoedd a Rheolwr y Ward Ôl-enedigol i ddod o hyd i fwrdd hybu iechyd y cyhoedd ac i gydgyssylltu'r holl weithgareddau a'u cynnwys ar y bwrdd canolog hwn.	Pennaeth Bydwreigiaeth Bydwraig Iechyd y Cyhoedd Rheolwr y Ward Ôl-enedigol	13 Chwefror 2023
Rhaid i'r bwrdd iechyd wneud yn siŵr y caiff yr arwyddion yn yr ysbyty eu hadolygu er mwyn sicrhau ei bod yn hawdd i gleifion ddod o hyd i bob un o'r wardiau mamolaeth	4.2 Gwybodaeth i Gleifion	Gwella arwyddion Yr adran Ystadau i ddarparu cost ac amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith.	Rheolwr Ystadau	30 Mawrth 2023

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y rhoddir meddyginiaethau lleddfuo poen mewn modd amserol ar y ward ôl-enedigol	4.1 Gofal ag urddas	Gosod blwch ar gyfer meddyginiaethau pob claf unigol ar bob ward er mwyn lleihau unrhyw oedi pan fydd angen meddyginiaeth ar gleifion.	Rheolwr y Ward Ôl-enedigol	30 Ionawr 2023
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff yr oergelloedd meddyginiaeth eu cloi pan na fyddant yn cael eu defnyddio.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Trefnu i gloeon newydd gael eu gosod ar yr oergelloedd.	Rheolwr y ward	Wedi'i gwblhau
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff cofnodion cleifion eu cadw'n ddiogel mewn man lle na ellir eu gweld, er mwyn cynnal cyfrinachedd y cleifion.	3.4 Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Cyfathrebu	Archwilio'r cypyrddau cofnodion bob dydd (fel rhan o'r gwiriadau dyddiol) er mwyn sicrhau eu bod wedi'u cloi.	Rheolwr y ward	Wedi'i gwblhau
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y gellir adnabod llofnod pob aelod o'r staff ac y caiff rhifau pin y Cyngor Meddygol Cyffredinol a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth eu nodi.	3.5 Cadw cofnodion	Rhoi stampiau enw i Feddygon a Bydwreigedd. Anfon gohebiaeth at bob aelod o'r staff yn nodi'r disgwyliad y dylai staff lofnodi ac ysgrifennu eu henw mewn priflythrennau os na fydd ganddynt eu stamp enw.	Rheolwr y ward Rheolwr y Ward	30 Mawrth 2023 30 Rhagfyr 2022

<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r rotas er mwyn sicrhau bod y gofynion staffio yn briodol ar gyfer yr uned.</p>	<p>7.1 Y Gweithlu</p>	<p>Cyflwyno proses i sicrhau y caiff y rhestr staff ei hargraffu a bod copi caled ohoni ar gael yn yr ystafell drosglwyddo bob wythnos.</p>	<p>Rheolwr y ward</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff cyfraddau galw ac ymateb meddygon ymgynghorol ar alwad eu harchwilio a'u monitro</p>	<p>7.1 Y Gweithlu</p>	<p>Cynnal archwiliad er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth o 100% mewn perthynas ag ymateb meddygon ymgynghorol ar alwad i alwadau. Uwchgyfeirio unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth at yr Arweinydd Clinigol i weithredu arnynt ac at y rheolwr ar alwad ar gyfer Mamolaeth.</p>	<p>Cydgysylltwyr y Ward Esgor</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod meddygon ymgynghorol ar alwad yn mynychu'r cyfarfod trosglwyddo gyda'r nos a bod staff y ward yn gwybod pwy yw'r meddyg ymgynghorol ar alwad, ac y caiff y rotas ar alwad eu harddangos ar gyfer y staff.</p>		<p>Cyflwyno proses i sicrhau y caiff y rhestr staff ei hargraffu a bod copi caled ohoni ar gael yn yr ystafell drosglwyddo bob wythnos.</p> <p>Cyflwyno archwiliad wythnosol o bresenoldeb, gan gynnwys tystiolaeth.</p>	<p>Cydgysylltwyr y Ward Esgor</p> <p>Cydgysylltwyr y Ward Esgor</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Wedi'i gwblhau</p>

<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff cyfraddau cwblhau hyfforddiant gorfodol eu gwella</p>	<p>7.1 Y Gweithlu</p>	<p>Dylid anfon gohebiaeth at bob aelod o'r staff er mwyn sicrhau y neilltuir amser i gwblhau hyfforddiant</p>	<p>Rheolwyr Llinell Tiwtor y Coleg Arweinydd Clinigol</p>	<p>30 Mawrth 2023</p>
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff meddygon iau eu cefnogi o ran eu hyfforddiant a'u datblygiad proffesiynol parhaus.</p>	<p>7.1 Y Gweithlu</p>	<p>Mae Tiwtor y Coleg a'r Arweinydd Clinigol wedi cyflwyno proses i sicrhau bod rhaglen ar waith i gefnogi meddygon iau, gan gynnwys amserlenni ar gyfer cyflawni asesiadau o anghenion dysgu unigol a gweithredu arnynt a monitro cynnydd unigol.</p>	<p>Arweinydd Clinigol Tiwtor y Coleg</p>	<p>30 Ionawr 2023 Wedi'i gwblhau</p>
<p>Dylai'r bwrdd iechyd ystyried yr adborth a gafwyd gan y staff cymunedol a cheisio gwella lles y staff a chydberthnasau rhwng y staff.</p>	<p>7.1 Y Gweithlu</p>	<p>Mae'r Bwrdd Iechyd a'r Pennaeth Bydwreigiaeth wedi ailgadarnhau eu hymrwymiad i siarter 'Caring for You' Coleg Brenhinol y Bydwagedd. Caiff hyn ei rannu â phob aelod o'r staff.</p> <p>Dylid rhoi'r opsiwn i'r staff fynychu'r pwyllgor Llesiant Staff a chymryd rhan ynddo, er mwyn sicrhau ei fod yn cynrychioli pob un o feysydd y gwasanaeth.</p>	<p>Pennaeth Bydwreigiaeth Stiwardiaid Coleg Brenhinol y Bydwagedd Cadeirydd y Pwyllgor Llesiant</p>	<p>21 Mawrth 2023 31 Mawrth 2023</p>

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth *Kathryn Greaves*

Enw (priflythrennau): Kathryn Greaves

Swydd: Pennaeth Bydwreigiaeth

Dyddiad: 20 Ionawr 2023